# DEDDF RHEOLEIDDIO LANDLORDIAID CYMDEITHASOL COFRESTREDIG (CYMRU) 2018

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

#### *Aelodaeth o fwrdd a hawliau pleidleisio*

#### *Adran 16 – Cyfyngiad ar aelodaeth awdurdodau lleol o fwrdd a hawliau pleidleisio*

89. Mae Atodlen 1 yn mewnosod Pennod 1A newydd yn Rhan 1 o Ddeddf 1996 (sector rhentu cymdeithasol a reoleiddir gan Weinidogion Cymru), er mwyn gosod cyfyngiadau ar y rheolaeth y caniateir i awdurdodau lleol ei chael ar landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Ceir nodiadau pellach ym mharagraffau 92-105 isod.

#### *Adran 17 - Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol*

90. Mae Atodlen 2 yn nodi'r diwygiadau a wneir i ddeddfwriaeth o ganlyniad i'r darpariaethau eraill a nodir yn y Ddeddf hon.

#### *Adran 18 – P#er i wneud diwygiadau canlyniadol pellach etc.*

91. Mae Adran 18 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud diwygiadau canlyniadol neu at ddiben rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Ddeddf hon, neu oddi tani.

#### *Adran 19 - Dod i rym*

92. Bydd darpariaethau'r Ddeddf yn dod i rym yn unol â gorchymyn cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru, ac eithrio adrannau 19 ac 20 sy'n dod i rym drannoeth y diwrnod y mae'r Ddeddf yn cael y Cydsyniad Brenhinol.

#### *Adran 20 – Enw byr*

93. Mae'r adran hon yn cadarnhau mai enw'r Ddeddf yw Deddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2018